Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: MiFruta

MiFruta, Chile, Resins

MiFruta

Cafodd MiFruta (Productores de Fruta del Valle del Aconcagua SA) neu Gymdeithas Tyfwyr Ffrwythau Dyffryn Aconcagua, ei sefydlu yn 2008 yng nghanol Chile gyda chefnogaeth Traidcraft. Cyn hynny, dim ond un cyflenwr rhesins Masnach Deg oedd gan Traidcraft, sef Cwmni Cydweithredol Amaethyddol Eksteenskuil (EAC) o Dde Affrica. Roedd gan EAC fonopoli byd eang ar resins Masnach Deg. Sefydliad yw MiFruta gyda 30 o ffermwyr bychan sydd â thua 180 ha o dir rhyngddyn nhw, a 94% ohono'n cael ei ddefnyddio i dyfu grawnwin. Mae'r ffermydd yn cael eu dyfrio'n naturiol o'r Andes. Mae tir y ffermwyr o flaen mynydd uchaf yr Andes, Mynydd Aconcagua.

"Mae'n anodd i gynhyrchwyr bychan wneud bywoliaeth o'n gwaith yma. Bu'n rhaid i lawer o ffermwyr werthu eu tir a symud i'r ddinas. Erbyn hyn, diolch i Fasnach Deg, ryw'n disgwyl y bydd fy mab yn cael gwell addysg."

Pili Contreras. Mae ei thad, Juan, yn aelod o MiFruta.

Drwy sefydlu MiFruta cafodd cynhyrchwyr rhesins Dyffryn Aconcagua wared ar y dyn canol. Mae mwy o'r elw'n mynd yn uniongyrchol i'r ffermwyr, mae ganddyn nhw fwy o sicrwydd ac maen nhw'n derbyn gwell prisiau am eu cynnyrch. Tan MiFruta, roedd gan brynwyr ac allforwyr y rhanbarth reolaeth gyfan gwbl dros y ffermwyr ac yn talu prisiau gwael iawn iddyn nhw am eu cynnyrch (a hynny weithiau chwech i wyth mis ar ôl eu prynu). Roedd yn rhaid i lawer o ffermwyr bychan yr ardal werthu eu tir gan ei bod yn anodd iddyn nhw wneud bywoliaeth.

Photo: Traidcraft/Zenen Santana Delgado

Fel rhan o broses sefydlu MiFruta, cafodd gweithdai eu datblygu i hyfforddi'r tyfwyr rhesin ynghylch Masnach Deg. Traidcraft a sefydliad llywodraeth Chile oedd yn talu am y rhain. Perswadiodd Traidcraft hefyd Sefydliad Masnach Deg a Sefydliad Labelu Masnach Deg i ddatblygu safonau ar gyfer rhesins o Chile ac enillodd Mifruta ardystiad Masnach Deg yn 2009. Erbyn hyn, Traidcraft yw cwsmer mwyaf MiFruta.

Defnyddir 30% o gnwd grawnwin y ffermwyr ar gyfer rhesins. Mae'r gweddill yn cael eu hallforio fel grawnwin i'w bwyta. Y ddwy brif isrywogaeth o rawnwin yw Thompson (gwyn) a Flame (tywyll) er bod yna bedair isrywogaeth arall sy'n cynhyrchu llai. Mae'r cynhaeaf y rhesins ym mis Mawrth a chynhaeaf y grawnwin i'w bwyta fis Chwefror. Ar ôl eu sychu, bydd y rhesins yn cael ei anfon i Redond SA, ffatri fechan lle bydd y rhesins yn cael eu didoli yn ôl eu maint, eu glanhau a'u pacio.